
TACTEG
GWYDDONIAETH

# CWESTIYNAU CWIS:
## Bioleg - Bwyd a maethiad: L5-6

Ysgrifenna'r ateb cywir yn y blwch.

1: Y cyfansoddyn bwyd sydd ei angen er mwyn i'r corff dyfu ac atgyweirio'i hun:




2: Mae moleciwlau bwyd sy'n cael eu hamsugno gan y coluddyn i'r llif gwaed yn cael eu cludo yn gyntaf i'r organ hwn yn y corff.

3: Mae diet sy'n cynnwys y gyfran gywir o garbohydradau, proteinau, brasterau, fitaminau, halwynau a ffibr yn:

4: Y tiwb hwn sy'n cysylltu'r geg a'r stumog. Mae'n defnyddio tonnau cyhyrol i wthio'r bwyd yn ei flaen.


©BBC

5: Mae'r cyfansoddyn hwn mewn bwyd yn gweithio fel brasfwyd.
Nid yw'n cael ei dreulio ac mae'n helpu i wneud y daith treulio bwyd yn rhwyddach.

6: Mae'r rhan hon o'r system dreulio yn amsugno dŵr yn ôl i'r llif gwaed.

7: Yr organ sydd ar goll o'r drefn isod yw:

ceg -> _______________ -> coluddyn bach -> coluddyn mawr -> anws

8: Mae'r cyfansoddion hyn mewn bwyd yn cynnal prosesau yn y celloedd a iechyd.
Os nad oes digon o'r cyfansoddion hyn, mae'n achosi clefydau diffyg maeth.

9: Mae pecyn grawnfwyd yn nodi ei fod yn rhoi 408kJ am bob 100g.
Pa werth yn y bwyd y mae hyn yn ei ddangos?

10: Yr enw am y broses o dorri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd yw:

11: Sylweddau cemegol yw'r rhain sy'n torri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd.



©BBC

# ATEBION CWIS:
## Bioleg - Bwyd a maethiad: L5-6

Ysgrifenna'r ateb cywir yn y blwch.

1: Y cyfansoddyn bwyd sydd ei angen er mwyn i'r corff dyfu ac atgyweirio'i hun:

| **Protein** |
|---|




2: Mae moleciwlau bwyd sy'n cael eu hamsugno gan y coluddyn i'r llif gwaed yn cael eu cludo yn gyntaf i'r organ hwn yn y corff.

| **Iau/Afu** |
|---|

3: Mae diet sy'n cynnwys y gyfran gywir o garbohydradau, proteinau, brasterau, fitaminau, halwynau a ffibr yn:

| **Gytbwys** |
|---|

4: Y tiwb hwn sy'n cysylltu'r geg a'r stumog. Mae'n defnyddio tonnau cyhyrol i wthio'r bwyd yn ei flaen.

| **Y bibell fwyd** |
|---|



©BBC

5: Mae'r cyfansoddyn hwn mewn bwyd yn gweithio fel brasfwyd.
Nid yw'n cael ei dreulio ac mae'n helpu i wneud y daith treulio bwyd yn rhwyddach.

**Ffibr**

6: Mae'r rhan hon o'r system dreulio yn amsugno dŵr yn ôl i'r llif gwaed.

**Y coluddyn mawr**

7: Yr organ sydd ar goll o'r drefn isod yw:

ceg -> _______________ -> coluddyn bach -> coluddyn mawr -> anws

**Stumog**

8: Mae'r cyfansoddion hyn mewn bwyd yn cynnal prosesau yn y celloedd a iechyd.
Os nad oes digon o'r cyfansoddion hyn, mae'n achosi clefydau diffyg maeth.

**Fitaminau**

9: Mae pecyn grawnfwyd yn nodi ei fod yn rhoi 408kJ am bob 100g.
Pa werth yn y bwyd y mae hyn yn ei ddangos?

**Gwerth egni'r bwyd**

10: Yr enw am y broses o dorri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd yw:

**Treulio**

11: Sylweddau cemegol yw'r rhain sy'n torri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd.

**Ensymau**



©BBC